***Astudiaeth Peilot ar Hap o Therapi Teulu Aml-ddimensiwn***

Rydym yn cynnal astudiaeth o bobl ifanc sy’n defnyddio sylweddau ac sy’n cael eu cyfeirio at Barnardo’s yng Nghymru ac yn Lloegr. Diben yr astudiaeth yw darganfod p’un a fyddai dull newydd yn helpu pobl ifanc yn y dyfodol. Mae’r astudiaeth yn cael ei rhedeg gan Brifysgol Caint yn cael ei hariannu gan y Gronfa Gwaddol Ieuenctid.

***Beth yw pwnc yr astudiaeth hon?***

Mae’r astudiaeth yn archwilio ffyrdd newydd o helpu pobl ifanc sy’n defnyddio sylweddau yng Nghymru ac yn Lloegr. Bydd yr astudiaeth yn ein helpu i wybod a yw’r dull newydd yn well am helpu pobl ifanc i leihau neu’r roi’r gorau i’w defnydd o sylweddau.

Mae’r pamffled i chi ei gadw. Dylech ei ddarllen yn ofalus. Mae croeso i chi holi os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall, neu os hoffech ragor o wybodaeth, gallwch gysylltu â ni ar mdftproject@kent.ac.uk.

***Beth fydd yn digwydd i berson ifanc os ydynt yn cymryd rhan?***

Os ydynt yn cytuno i gymryd rhan, bydd gofyn iddynt gytuno ar ffurf cydsyniad ysgrifenedig. Bydd cyfrifiadur yn penderfynu ar hap p’un a fyddant yn derbyn y gofal arferol ynteu ymyriad MDFT.

***Ymyrraeth MDFT***

Mae’r dull newydd yn cynnwys staff sydd wedi’u hyfforddi’n arbennig i gynnig therapi ac i gefnogi pobl ifanc a’u teuluoedd.

**Bydd gofyn i bob person ifanc sy’n cymryd rhan yn yr astudiaeth lenwi holiaduron ar ddechrau’r astudiaeth ac yn eto ymhen 6 mis a 12 mis.** Pan fydd y person ifanc yn cwblhau’r holiaduron ar ôl 6 mis neu 12 mis, gall gael aelod teulu dibynadwy, gofalwr neu weithiwr o wasanaeth arall gydag ef. Pan fydd yr ymchwiliwr yn galw i wneud yr apwyntiad, byddant yn holi os yw’r person ifanc angen cymorth ychwanegol a byddant yn ei drefnu. Fel diolch, byddwn yn rhoi taleb £25 i'r person ifanc ar ôl bob cam lle mae gofyn iddo lenwi holiaduron, un £25 ar ôl cwblhau’r holiadur ar y dechrau, £25 arall ar ôl cwblhau’r holiadur ymhen 6 mis ac un arall ar ôl cwblhau’r holiadur ymhen 12 mis. Mae’r holiaduron yn ymwneud â defnydd o sylweddau, ymddygiad ac iechyd meddwl. I gael dealltwriaeth glir o farn pobl ifanc am y dull newydd, efallai y byddwn yn gofyn iddynt gymryd rhan mewn cyfweliad gydag ymchwilydd, ond cyn i ni wneud hynny, byddwn yn gofyn am ganiatâd, a gallant wrthod os nad ydynt eisiau cymryd rhan.

***A oes rhaid i mi gymryd rhan yn yr astudiaeth hon?***

Nac oes. Eich penderfyniad chi yw cymryd rhan ai pheidio.

Byddwn yn disgrifio'r astudiaeth, yn mynd drwy'r daflen wybodaeth hon gyda chi ac yn ateb eich cwestiynau. Os yw'r person ifanc yn penderfynu cymryd rhan yn yr astudiaeth, bydd gofyn iddo arwyddo ffurflen gydsynio.

Rydym yn deall y gall teuluoedd fod â phrofiadau a chredoau gwahanol am ymchwil, therapi, a gwasanaethau. Rydym hefyd yn gwybod, ar gyfer rhai cymunedau - yn enwedig rheiny sydd wedi profi gwahaniaethu neu driniaeth anghyfartal yn y gorffennol - gall bod diffyg ymddiriedaeth yn y systemau hyn. Rydym eisiau cydnabod hyn yn agored a rhoi sicrwydd i chi bod eich barn a'ch profiad yn bwysig i ni. Byddwn yn cymryd amser i ateb eich cwestiynau, egluro unrhyw beth mewn iaith syml, a pharchu unrhyw ystyriaethau diwylliannol neu bersonol y gallech eu cael wrth wneud eich penderfyniad.

**Gall y person ifanc newid ei feddwl ar unrhyw adeg cyn i ni ddileu unrhyw wybodaeth a ellid ei defnyddio i’w adnabod i’r data, fel arfer tua 12 mis ar ôl ymuno â’r astudiaeth. Ni fydd angen iddo roi rheswm. Os yw’n penderfynu peidio â chymryd rhan yn yr astudiaeth neu ei fod yn dymuno tynnu ei gyfranogiad yn ôl, ni fydd yn effeithio ar y gefnogaeth y mae’n ei derbyn gan wasanaethau defnyddio sylweddau nac atgyfeiriadau i unrhyw wasanaethau eraill.**

***Pwy fydd â mynediad i’m gwybodaeth?***

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir am y person ifanc yn ystod yr ymchwil hwn yn cael ei chadw’n gyfrinachol. Yr unig bobl a fydd yn gallu edrych arni fydd y tîm ymchwil.

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chadw ar gyfrifiadur â chyfrinair. Ar ôl i ni gynnal yr holiadur 12 mis byddwn yn dileu unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod y person ifanc o'n cofnodion. Bydd y data'n cael ei stori ym Mhrifysgol Caint am 5 mlynedd (ar gyfer gwybodaeth ysgrifenedig) a 10 mlynedd (ar gyfer data electronig). Ar ddiwedd yr astudiaeth, bydd y data hwn, heb unrhyw beth a ellid ei ddefnyddio i adnabod y person ifanc, yn cael ei archifo gan y sefydliad sy'n ariannu'r astudiaeth, y Gronfa Gwaddol Ieuenctid.

Mae'r holl staff a sefydliadau sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn dilyn yr un rheolau cyfrinachedd â meddygon a nyrsys, ac ni ellir torri'r rheolau hynny heb gydsyniad, oni bai bod amgylchiadau hynod eithriadol. **Fel arfer, mae hyn yn digwydd os yw'r ymchwilydd yn gweld neu'n cael gwybod rhywbeth sy'n codi pryder difrifol ynghylch diogelwch personol y person ifanc.**

***A allwn i fod mewn perygl drwy gymryd rhan?***

Mae gan y staff ymchwil a'r sefydliadau sy'n rhan o'r ymchwil hwn lawer o brofiad ac nid ydym yn credu y bydd y person ifanc yn profi unrhyw niwed drwy gymryd rhan yn yr astudiaeth ymchwil hon. Bydd y prif ymchwilydd, yr Athro Simon Coulton, yn delio ag unrhyw awgrymiadau neu gwynion am yr astudiaeth neu sut cafodd y person ifanc ei drin ac mae ei fanylion cyswllt ar ddiwedd y pamffled hwn.

***Pwy sy'n ariannu ac yn trefnu'r astudiaeth?***

Mae'r astudiaeth yn cael ei hariannu gan y Gronfa Gwaddol Ieuenctid ac yn cael ei chynnal gan **Brifysgol Caint**. Mae'r ymyriadau'n cael eu cynnal gan staff profiadol a hyfforddedig. Cyn i ni ddechrau'r astudiaeth, fe wnaethon ni ofyn i gorff annibynnol edrych ar yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud i sicrhau ei fod yn foesegol ac yn dilyn arfer da.

***Beth sy'n digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?***

Rydym yn awyddus i sicrhau fod yr holl deuluoedd sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth yn cael cyfle i helpu i drafod a deall canlyniadau'r astudiaeth. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw gyfleoedd i wneud hyn wrth iddynt godi drwy gydol cyfnod yr astudiaeth. Rydym yn fodlon anfon crynodeb i chi o'r ymchwil ar ddiwedd y prosiect. Os hoffech dderbyn hyn, anfonwch e-bost gan ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y pamffled hwn. Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn ein helpu i ddeall ffyrdd newydd i helpu pobl ifanc yn y dyfodol. Ni fydd modd adnabod unrhyw un o'r wybodaeth neu'r adroddiadau a ysgrifennir am yr astudiaeth.

***A fydd yr ymchwil yn fy helpu?***

Ar y pwynt hwn, ni allwn addo y bydd yr astudiaeth yn helpu'r person ifanc yn uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd yr astudiaeth yn darparu gwybodaeth ynghylch sut yr ydym yn gweithio gyda phobl ifanc yn y dyfodol.

***Diolch…***

Am gymryd yr amser i ddarllen y pamffled hwn. Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu godi unrhyw bryderon sydd gennych am y prosiect. Os ydych yn penderfynu cymryd rhan, cadwch y pamffled hwn i gyfeirio'n ôl ato.

***Staff y prosiect***


Rosa Vass, rheolwr prawf, Prifysgol Caint, 01227 827912, r.m.vass@kent.ac.uk

Yr Athro Simon Coulton, Prif Ymchwilydd, Prifysgol Caint, 01227 824535, S.Coulton@kent.ac.uk


Os oes gennych unrhyw gwynion neu bryderon am y prosiect ymchwil, mae croeso i chi gysylltu â:


Moeseg Ymchwil a Llywodraethu, lssjethics@kent.ac.uk


Mae'r hysbysiad preifatrwydd i'w gael yma tba

https://media.www.kent.ac.uk/se/40432/ResearchParticipantUniversityLevelPrivacyNotice.pdf

**Pamffled Gwybodaeth Ymchwil: Rhiant/ Gofalwr**

University of Kent